Hawdd ei Ddeall

# Ein cynlluniau ar gyfer rhaglenni gyda'r cyhoedd

## Beth fyddwn ni'n wneud o 2022 i 2027

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Amgueddfa Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Strategaeth ar gyfer Rhaglenni'r Cyhoedd 2022-2027'.**

**Hydref 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 28.**

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni,** mae hyn y meddwl **Amgueddfa Cymru – Museum Wales.** I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:




**Gwefan:** www.museum.wales

**Ffôn:** 0300 111 2 333

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad ..................... 4**

**Ein prif nodau..................... 10**

**Cynllun Gweithredu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ..................... 12**

1.Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael ei gynrychioli..................... 12

2.Ysbrydoli pobl i fod yn greadigol a dysgu ..................... 15

3.Bod yn dda i'r amgylchedd ..................... 19

4.Cefnogi llesiant pobl ..................... 21

5.Gwneud mwy o bethau'n ddigidol ..................... 23

6.Gweithio gyda phobl eraill o amgylch y byd..................... 25

**Sut rydyn ni wedi gwneud y cynllun hwn..................... 26**

**Sut y byddwn ni'n mesur ac yn adrodd am ein gwaith ..................... 26**

**Sut y byddwn ni'n talu am ein gwaith..................... 27**

**Geiriau anodd..................... 28**

# Cyflwyniad

Ni yw **Amgueddfa Cymru – Museum Wales.**



**Amgueddfa Cymru – Museum Wales** yw'r mudiad sy'n rhedeg yr amgueddfeydd cenedlaethol yng Nghymru.




**Amgueddfa Cymru** yw'r geiriau Cymraeg am 'Museum Wales'. Amgueddfa Cymru yw'r enw rydyn ni'n hoffi ei ddefnyddio.



Rydyn ni'n credu bod gan bawb yr hawl i gymryd rhan yn ein gwaith.



Mae arnon ni eisiau i bobl fedru dysgu a bod yn greadigol yn yr holl waith rydyn ni'n wneud. Mae ein casgliadau, ein hamgueddfeydd a'n llwyfannau digidol yn adnoddau i'r cyhoedd eu defnyddio.



Mae arnon ni eisiau i Gymru fod yn fwy cyfartal.
Ac mae arnon ni eisiau i bawb gael cyfle i gymryd rhan yn y pethau rydyn ni'n wneud.
A chael dweud eu barn amdanyn nhw.




Mae ein gwaith yn dilyn deddf Llywodraeth Cymru sy'n cael ei galw'n **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

**Mae ein rhaglen waith yn cynnwys y pethau hyn:**



- Digwyddiadau




- **Arddangosfeydd**

> Mae **arddangosfa** yn rhywbeth rydyn ni'n ei ddatblygu gyda phobl a ble rydyn ni'n dangos pethau fel casgliadau a chelfyddyd i'r cyhoedd.



- Dysgu



- Cyhoeddiadau



- Gwirfoddoli

**We want our programme of work to help:**



- Iechyd a llesiant pobl



- Unigolion, grwpiau a chymunedau sy'n wynebu anfanteision.



Mae arnon ni eisiau i bobl gael y cyfle i fod yn gwbl gysylltiedig â'r holl bethau hyn.




Cyn **COVID-19**, gwnaeth 200 mil o ddisgyblion ysgol a myfyrwyr gymryd rhan gyda ni. Mae pobl yn gwybod ein bod yn rhoi llawer o gyfleoedd dysgu i blant, teuluoedd, pobl ifainc ac oedolion.




Rydyn ni'n buddsoddi yn ein gwirfoddolwyr. Mae llawer o gyfleoedd i bobl wirfoddoli gyda ni.



Ond mae arnon ni eisiau datblygu ein gwaith ymhellach. A gwneud cymaint mwy.



Rydyn ni hefyd yn cyflwyno ein rhaglenni gyda llawer o wahanol fudiadau. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, elusennau, mudiadau cenedlaethol ac amgueddfeydd lleol. Mae arnon ni eisiau dal i wneud hyn.




Mae **pandemig COVID-19** wedi gwneud i ni feddwl am y ffordd rydyn ni'n gweithio. Ac wedi gwneud i ni weithio mewn ffyrdd newydd.



Er enghraifft, rydyn ni wedi gwneud llawer mwy o waith ar-lein.



Ac mae wedi ein helpu i feddwl mwy am y pethau y mae ar bobl eisiaut.



Mae llawer o **anghydraddoldeb** yng Nghymru.

> Mae **anghydraddoldeb** yn meddwl bod pobl yn cael eu trin yn wahanol neu'n annheg.



Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl a gwahanol fathau o bobl gael eu cynnwys yn ein gwaith.



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n rhan o Amgueddfa Cymru, gan gynnwys pobl sy'n cael profiad o **anghydraddoldebau** a **hiliaeth**.

> **Hiliaeth** yw pan fydd rhywun yn trin person arall yn wahanol neu'n annheg oherwydd ei gefndir, ei ddiwylliant, neu ei grefydd neu'r ffordd mae'n byw.





Fe weithion ni gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu cynllun. Mae'r cynllun hwn ar-lein ac mae'n cael ei alw'n Gynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad. Mae'r fersiwn hawdd ei ddeall yma: [Ehangu Ymgysylltiad – Ein cynlluniau i wneud y celfyddydau yn fwy poblogaidd].



Rydyn ni'n meddwl y gallwn ni wneud gwahaniaeth yma. A helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn fwy cyfartal a theg.





Mae'r cynllun hwn ynglŷn â'r pethau y mae arnon ni eisiau eu gwneud â'n rhaglenni dros y 5 mlynedd nesaf.



A'r gwahaniaeth y bydd yn ei wneud.

# Ein prif nodau




Dyma'r pethau pwysicaf yr hoffen ni i'n cynllun ar gyfer rhaglenni gyda'r cyhoedd ei gyflawni:



**1. Gwneud yn siwr bod pawb yn cael ei gynrychioli.**



**2. Ysbrydoli pobl i fod yn greadigol a dysgu.**



**3. Bod yn dda ar gyfer yr amgylchedd.**

Yr **amgylchedd** yw lle rydym yn byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.




**4. Cefnogi llesiant pobl.**




**5. Gwneud mwy o bethau'n ddigidol.**



**6. Gweithio gyda phobl eraill o amgylch y byd.**



Nawr byddwn yn siarad am y nodau hyn yn fwy manwl.

# Cynllun Gweithredu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf



This Action Plan will help us deliver our museum wide strategy. This strategy is called **Amgueddfa Cymru 2030:** https://amgueddfa.cymru/media/54768/AC-Strategy-Easy-Read-CYM99.pdf



## 1. Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael ei gynrychioli

**I gyflawni'r nod hwn, mae arnon ni eisiau:**



- Dathlu **amrywioldeb**.

  Mae **amrywioldeb** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu'n dda am wneud gwahanol bethau.



- Bod yn onest am y gorffennol yn ein **harddangosfeydd** a'r pethau roedden ni'n eu dangos. Er enghraifft, pan nad oedd Cymru yn trin pobl yn gyfartal ac yn deg.



- Dysgu am **amrywioldeb** diwylliannol.



- Hyrwyddo hawliau plant a phobl ifainc.

**I helpu i gyflawni hyn, fe fyddwn ni'n:**




- Gweithio gyda phobl sy'n cael profiad o **anghydraddoldebau** a **hiliaeth** yn ystod digwyddiadau fel 'Black History 365' 'Pride' ac mis 'Glitter History'. Ac wrth ddangos pethau newydd sydd yn onest am y gorffennol.



- Gwneud yn siŵr bod ein **harddangosfeydd** a'n digwyddiadau yn dathlu treftadaeth gyfoethog **amrywiaethol** Cymru.



- Darparu adnoddau i weithio gyda phobl sy'n cael profiad o **anghydraddoldebau** a **hiliaeth**.




- Gwneud yn siŵr bod ein rhaglenni gydag ysgolion yn hyrwyddo cydraddoldeb. A dathlu treftadaeth gyfoethog **amrywiaethol** Cymru.



- Cynnwys pobl ifainc wrth wneud polisïau a phenderfyniadau.

**Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth oherwydd:**



- Bydd pobl yn teimlo bod mwy o bobl yn gwrando arnyn nhw a byddan nhw'n gallu cymryd rhan.



- Bydd rhaglenni yn **amrywiaethol** ac yn cynnwys pawb.



- Bydd **arddangosfeydd** yn onest am y gorffennol.



## 2. Ysbrydoli pobl i fod yn greadigol a dysgu

**I gyflawni'r nod hwn, mae arnon ni eisiau:**



- Gwneud yn siŵr ein bod yn arwain y ffordd gyda rhaglenni am **ddiwylliant** yng Nghymru.

> Mae **diwylliant** yn meddwl ein ffordd o fyw, bod yn greadigol, celfyddydau, syniadau ac arferion yr holl wahanol gymunedau.



- Gwneud yn siŵr ein bod yn dal ati i fod yn ddarparwr dysgu mawr yng Nghymru.

- Gwneud yn siŵr ein bod yn dal gafael ar ein cyflawniad sy'n cael ei alw'n **Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.**




- Mae ein digwyddiadau a'n rhaglenni yn hawdd **cael gafael** arnyn nhw a'u defnyddio.

> Mae **cael gafael** ar rywbeth yn meddwl bod pawb yn medru dod o hyd iddo a'i ddefnyddio.

**I helpu i gyflawni hyn, fe fyddwn ni'n:**



- Gweithio gyda phartneriaid a phobl i gyflwyno **arddangosfeydd** a rhedeg digwyddiadau a rhaglenni gydag ysgolion, teuluoedd ac oedolion. Bydd y rhain yn dathlu **diwylliant** a bod yn greadigol yng Nghymru.



- Cyflwyno dysgu i blant ifainc sydd heb ddechrau'r ysgol. A gweithdai a gweithgareddau ar gyfer ysgolion.



- Cyflwyno dysgu i deuluoedd a **Phlant sy'n Derbyn Gofal**. A dysgu ar gyfer oedolion.

> Nid yw **Plant sy'n Derbyn Gofal** yn cael byw gyda'u teuluoedd. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofalu amdanyn nhw un ai gyda Theuluoedd Maeth neu mewn Cartref Plant.



- Gweithio gyda mwy o bobl ifainc i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni.



- Creu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli.




- Cyhoeddi adnoddau ar-lein a gwneud y rhain yn hawdd eu defnyddio.




- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg.



- Gwneud yn siŵr bod rhaglenni yn **hawdd cael gafael arnyn nhw** a'u defnyddio.
  Defnyddio **Iaith Arwyddion Prydain** mewn digwyddiadau a rhaglenni.

**Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth oherwydd:**



- Bydd yn helpu plant, pobl ifainc ac oedolion i ddatblygu medrau newydd a hyder.



- Bydd yn helpu plant, pobl ifainc ac oedolion yng Nghymru i fod yn fwy creadigol.




- Bydd yn helpu ysgolion i gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru.




- Bydd yn helpu plant, pobl ifainc ac oedolion ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg.



- Bydd yn helpu pobl ifainc i gael gwaith gyda thâl.



- Bydd pobl yn gallu **cael gafael** ar ddigwyddiadau a rhaglenni yn Iaith Arwyddion Prydain, Cymraeg a Saesneg. Fe fyddan nhw'n cynnwys pawb.



- Bydd yn helpu Amgueddfa Cymru i fod yn rhan o'r rhwydwaith mwy eang yng Nghymru.



# 3. Bod yn dda i'r amgylchedd

**I gyrraedd y nod hwn, mae arnon ni eisiau:**



- Codi ymwybyddiaeth o'r pethau sy'n digwydd i'n planed.



- Meddwl am yr amgylchedd yn ein gwaith.

**I'n helpu i gyflawni hyn, fe fyddwn ni'n:**



- Gwneud yn siwr ein bod yn cael **arddangosfeydd** a digwyddiadau am yr amgylchedd.



- Rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn prosiectau amgylcheddol. Er enghraifft, gwirfoddoli garddio gwyrdd.




- Ysgrifennu polisïau ac arweiniad ar ffyrdd o fod yn dda ar gyfer yr **amgylchedd** mewn digwyddiadau, **arddangosfeydd** ac yn ein gwaith gyda'n rhaglen i'r cyhoedd.



- Meddwl am leihau gwastraff. A defnyddio defnyddiau sydd ddim yn ddrwg i'r amgylchedd.



- Cefnogi busnesau lleol.

- **Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth oherwydd:**



- Bydd yn helpu pobl i fod yn fwy ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd.




- Bydd yn helpu pobl i fod yn weithgar a bod yn dda ar gyfer yr amgylchedd.



# 4. Cefnogi llesiant pobl

**I gyflawni'r nod hwn, mae arnon ni eisiau:**

- Gwneud yn siŵr bod yr amgueddfa yn addas ar gyfer pobl sy'n byw gyda **dementia**.



Mae **dementia** yn salwch sy'n gallu eich gwneud yn ddryslyd ac achosi problemau gyda'r cof.

Mae'r ffordd y mae'r ystafell neu'r lle yn cael ei drefnu yn gallu helpu pobl sy'n byw gyda **dementia**.



- Cefnogi rhaglen lesiant ar gyfer Cymru.

**I'n helpu i gyflawni hyn fe fyddwn ni'n:**

- Cyflwyno rhaglen sy'n cael ei galw'n **Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion.** Byddwn yn gwneud hyn gyda **Chymdeithas Alzheimer.** A chyda phobl sy'n byw gyda **dementia** a'u gofalwyr.



- Cyflwyno rhaglenni i gefnogi llesiant pobl.




- Ceisio cael arian i ddatblygu a chyflwyno ein cynnig ar gyfer llesiant.

**Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth oherwydd:**



- Bydd yn helpu pobl sy'n byw gyda **dementia** deimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth.



- Bydd yn helpu eu gofalwyr i deimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth.



- Bydd yn cefnogi pobl i fyw yn iach ac yn hapus.



- Bydd yn gwella llesiant i bawb trwy gymryd rhan yn y gweithgareddau.




## 5. Gwneud mwy o bethau'n ddigidol

**I gyrraedd y nod hwn, mae arnon ni eisiau:**




- Gwella ein gwaith ar-lein.

**I'n helpu i gyflawni hyn fe fyddwn ni'n:**




- Gwneud gwefannau yn hawdd i **gael gafael arnyn nhw** ar gyfer pobl. A chael gwybodaeth am raglenni ar-lein.

- Rhoi cyfleoedd i bobl ifainc weithio ar ein safleoedd cyfryngau cymdeithasol.




- Defnyddio systemau ar-lein i wneud pethau'n haws i bobl. Er enghraifft, gwerthu tocynnau ar gyfer digwyddiadau ac **arddangosfeydd**.



- Gweithio gydag arbenigwyr digido i wneud gwirfoddoli ar-lein yn bosibl.

**Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth oherwydd:**



- Bydd yn cael mwy o bobl i gymryd rhan yn y pethau rydyn ni'n wneud.



- Bydd yn ein helpu i gyrraedd mwy o bobl.



# 6. Gweithio gyda phobl eraill o amgylch y byd

**I gyrraedd y nod hwn, mae arnon ni eisiau:**



- Datblygu **arddangosfeydd** ar daith. Mae'r rhain yn **arddangosfeydd** sy'n teithio i wahanol leoedd yn y byd.

**I'n helpu i gyflawni hyn fe fyddwn ni'n:**



- Gweithio gyda mudiadau celfyddyd eraill a lleoliadau ar draws y byd.




- Ceisio cael arian i ddatblygu ein cynllun ar gyfer **arddangosfeydd** ar daith.

**Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth oherwydd:**




- Bydd pawb ar draws y byd yn dod i adnabod yr amgueddfa a Chymru yn well.

# Sut rydyn ni wedi gwneud y cynllun hwn




Mae gan Gymru ddeddf sy'n cael ei galw'n **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Rydyn ni wedi defnyddio'r ddeddf hon i'n helpu i wneud y cynllun hwn.




Mae'r ddeddf wedi'i seilio ar 7 nod sy'n ymwneud â llesiant. Rydyn ni wedi defnyddio'r 7 nod hyn i'n helpu gyda'r cynllun hwn.


# Sut y byddwn ni'n mesur ac yn adrodd am ein gwaith



Mae llawer o'n rhaglenni am ddim. Nid yw manylion y bobl sy'n defnyddio ein rhaglenni gennym ni bob amser.



Rydyn ni yn casglu nifer y bobl sy'n defnyddio ein rhaglenni.



Mae arnon ni eisiau dod o hyd i ffyrdd i ddeall yn well pwy sy’n defnyddio ein rhaglenni a sut y mae ein rhaglenni yn gwneud gwahaniaeth i bobl.

## Sut y byddwn ni’n talu am ein gwaith




Mae gennym ni hyn a hyn o arian i gyflwyno ein rhaglen i’r cyhoedd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydyn ni wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru. Mae mudiadau eraill a noddwyr yn cefnogi’r gwaith yma hefyd, i gyrraedd nod yr incwm a chodi arian.

# Geiriau anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd yw lle rydym yn byw. Mae’n cynnwys y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy’n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Amrywioldeb

Mae amrywioldeb yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath.
Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu’n dda am wneud gwahanol bethau.

## Anghydraddoldeb

Mae anghydraddoldeb yn meddwl bod pobl yn cael eu trin yn wahanol neu’n annheg.

## Arddangosfa

Mae arddangosfa yn rhywbeth rydyn ni’n ei ddatblygu gyda phobl a ble rydyn ni’n dangos pethau fel casgliadau a chelfyddyd i’r cyhoedd.

## Cael gafael

Mae cael gafael ar rywbeth yn meddwl bod pawb yn medru dod o hyd iddo a’i ddefnyddio.

## Dementia

Mae dementia yn salwch sy’n gallu eich gwneud yn ddryslyd ac achosi problemau gyda’r cof.

Mae’r ffordd y mae’r ystafell neu’r lle yn cael ei drefnu yn gallu helpu pobl sy’n byw gyda dementia.

## Ddiwylliant

Mae diwylliant yn meddwl ein ffordd o fyw, bod yn greadigol, celfyddydau, syniadau ac arferion yr holl wahanol gymunedau.

## Hiliaeth

Hiliaeth yw pan fydd rhywun yn trin person arall yn wahanol neu'n annheg oherwydd ei gefndir, ei ddiwylliant, neu ei grefydd neu'r ffordd mae'n byw.

## Plant sy'n Derbyn Gofal

Nid yw Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael byw gyda'u teuluoedd. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofalu amdanyn nhw un ai gyda Theuluoedd Maeth neu mewn Cartref Plant.